ytafod

CYLCHGRAWN CYMDEITHAS YR IAITH
RHIFYN 3.17 • GWANWYN 2004 • £1

RHIFYN CYFARFOD CYFFREDINOL
MAWRTH 6
ABERYSTWYTH



- **TAITH GERDDED A RALI CYMUNEDAU RHYDD**
- **TARGEDU MCDONALDS**
- **TECHNOLEG YN GYMRAEG**
- **NEWYDDION O'R RHANBARTHAU**



ytafod

CYLCHGRAWN CYMDEITHAS YR IAITH

CYFROL 3 – RHIFYN 17
(GWANWYN 2004)
ARGRAFFWYD GAN
WASG MORGANNWG
DYLUNIO GAN IWAN STANDLEY, ÂNGEL

GOLYGYDD NIA WILLIAMS

LLUNIAU IWAN STANDLEY

cymdeithas yr IAITH gymraeg

PRIF SWYDDFA
PEN ROC
RHODFA'R MÔR
ABERYSTWYTH
CEREDIGION
SY23 2AZ
FFÔN 01970 624501
FFACS 01970 627122
E-BOST SWYDDFA@CYMDEITHAS.COM
Y WE WWW.CYMDEITHAS.COM

Os oes gennych chi unrhyw straeon neu newyddion o'ch ardal chi, danfonwch nhw atom naill ai trwy'r cyfeiriad uchod, neu at **tafod@cymdeithas.com**. Am fanylion am ein prisiau hysbysebu, cysylltwch â'r brif swyddfa.

www.cymdeithas.com

Senedd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg 2003-2004

Os am ragor o wybodaeth ar unrhyw agwedd o waith y Gymdeithas, ac i ymuno yn yr ymgyrchoedd, cysylltwch ag un o'r swyddogion isod.

Fe'u hetholir yn flynyddol yng Nghyfarfod Cyffredinol y Gymdeithas.

Neu, gallwch gysylltu â **Dafydd Morgan Lewis** yn y brif swyddfa – mae'r manylion uchod.

Swyddogion

Cadeirydd
Huw Lewis – cadeirydd@cymdeithas.com

Is-gadeirydd (ymgyrchoedd)
Manon Wyn – manon@cymdeithas.com

Is-gadeirydd (cyfathrebu)
Hedd Gwynfor – hedd@cymdeithas.com

Is-gadeirydd (gweinyddol)
Lyndon Jones – lyndon@cymdeithas.com

Trysorydd
Danny Grehan – danny@cymdeithas.com

Codi arian
Aled Griffiths – aled.griffiths@cymdeithas.com

Aelodaeth
Heledd Gwyndaf – heledd@cymdeithas.com

Mentrau masnachol
Gwyn Sion Ifan – gwyn@cymdeithas.com

Adloniant
Llyr Edwards – llyr@cymdeithas.com

Y Tafod
Nia Williams – nia@cymdeithas.com

Gwefan a dylunio
Iwan Standley – iwan@cymdeithas.com

Ymgyrchoedd

Ymgyrch Deddf Iaith
Catrin Dafydd – catrin@cymdeithas.com
Rhys Llwys – rhys@cymdeithas.com
Gwenan Schiavone – gwenan@cymdeithas.com
Bethan Jenkins – bethan@cymdeithas.com

Ymgyrch Cymunedau Rhydd
Siân Howys – sian@cymdeithas.com
Aled Davies – aled@cymdeithas.com
Dafydd Tudur – dafydd.tudur@cymdeithas.com

Ymgyrch Addysg
Ffred Ffransis – ffred@cymdeithas.com

Rhanbarthau

Morgannwg/Gwent
Branwen Brian Evans – branwen@cymdeithas.com

Ceredigion
Angharad Clwyd – angharad.clwyd@cymdeithas.com

Gwynedd
Angharad Tomos – angharad@cymdeithas.com
Ben Gregory – ben@cymdeithas.com

Clwyd
Toni Schiavone – toni@cymdeithas.com

Caerfyrddin
Sioned Elin – sioned@cymdeithas.com

Swyddogion Cyflogedig

Swyddog Ymgyrchoedd
Dafydd Morgan Lewis – dafydd@cymdeithas.com

O'R CADEIRYDD

GWADU HAWLIAU

Siom oedd bod yn bresennol mewn cyfarfod cyhoeddus diweddar a drefnwyd gan Bwrdd yr Iaith Gymraeg yng Nghaerfyrddin. Yn ystod y cyfarfod hwnnw, fe heriwyd panel o siaradwyr – a oedd yn cynnwys aelodau amlwg o'r Bwrdd, ynghyd â'i ddarpar Brif Weithredwr newydd, Meirion Prys Jones – i egluro pam nad oeddent yn gweld yr angen am Ddeddf Iaith Newydd. Yn anffodus roedd eu hatebion yn boenus o ystrydebol.

Byrdwn eu neges oedd nad oes unrhyw angen am ddeddfwriaeth bellach, er mwyn sicrhau bod gan Gymry Cymraeg yr hawl i dderbyn gwasanaethau modern yn eu hiaith eu hunain. Llawer gwell yw dibynnu ar allu 'gwyrthiol' y Bwrdd i berswadio cwmnïau di-ri i gydnabod y Gymraeg, gan apelio at eu hewyllys da.

Wrth gwrs, mae ewyllys da tuag at y Gymraeg yn bwysig – does neb yn gwadu hynny. Ymhellach, does dim amheuaeth y gwelwyd twf mawr yn yr ewyllys da sy'n bodoli tuag at y Gymraeg dros y blynyddoedd diwethaf, a bod hyn yn ei dro wedi achosi i rai cwmnïau a sefydliadau wneud rhywfaint o ddefnydd o'r iaith. Serch hynny, ynghanol yr holl drafod ynglŷn ag ewyllys da, mae un gair pwysig yn mynd ar goll – hawliau.

Ar hyn o bryd, nid oes gan siaradwyr Cymraeg unrhyw hawliau cyfreithiol i ddisgwyl derbyn gwasanaeth Cymraeg gan gwmnïau preifat. Hyd yn oed yn achos rhai o'r gwasanaethau preifat hynny sydd eisioes ar gael yn y Gymraeg, does dim i'w rhwystro – fel a welir mor aml erbyn hyn – rhag cael eu tynnu yn ôl. Yn wir, mae'r sefyllfa bresennol yn golygu bod disgwyl i siaradwyr Cymraeg wneud ymdrech ymwybodol i gyfiawnhau

bodolaeth hynny o wasanaethau sydd eisioes ar gael yn y Gymraeg. Ac os yw rhai o'r cwmnïau hyn yn penderfynu bod cynnig gwasanaeth Cymraeg yn mynd yn groes i fuddiannau eraill wel dyna ni, beth bynnag ddywed y Bwrdd Iaith. Dyna yw realiti dibynnu ar ewyllys da.

Felly, mewn oes fodern, lle gwelir cymaint o wasanaethau yn cael eu preifateiddio, mae ein cyfleoedd ni i ddefnyddio'r Gymraeg yn ddibynnol ar ddim mwy na mympwy rhyw reolwr neu weinyddwr. Yn sicr nid oes gennym unrhyw hawliau. Yn y cyfamser, fe saif y Bwrdd Iaith yn y canol yn ceisio plesio pawb, ond, yn y pendraw, yn gwneud dim mwy na thwyllo ei hun.

Fe welwyd gwerth dibynnu ar ddim mwy nag ewyllys da yn ystod protest a gynhaliwyd gan aelodau o Gymdeithas yr Iaith, yng nghanol Caerdydd ar ddechrau Ionawr. Bryd hynny, fe ymwelwyd ag Orange, y cwmni ffonau symudol. Dyma'r cwmni a gyhoeddodd yn ystod Haf 2000 (yn dilyn rhai misoedd o ymgyrchu gan Gymdeithas yr Iaith) ei fod yn gweithio gyda'r Bwrdd Iaith, er mwyn cynnig gwasanaethau Cymraeg i'w gwsmeriaid. Bron i bedair mlynedd yn ddiweddarach, yn ystod y brotest yng Nghaerdydd, cafwyd y cyfle i weld beth oedd canlyniad holl waith perswadio Bwrdd yr Iaith. Beth tybed oedd yr arwydd o ewyllys da Orange tuag at y Gymraeg? Un arwydd wrth y drws yn dweud croeso!

Wrth ymgyrchu dros Ddeddf Iaith Newydd, mae Cymdeithas yr Iaith yn datgan yn agored mai ein nod yw sicrhau bod gan bawb yng Nghymru yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng naturiol, a bod hynny yn cael ei ddiogelu o fewn fframwaith o hawliau cyfreithiol. Serch hynny, trwy fynnu pledio gwerth perswad ac ewyllys da, mae'r Bwrdd Iaith yn gwadu i ni'r hawliau hyn. O ystyried y dystiolaeth bresennol, onid yw hi'n hen bryd iddynt ddechrau egluro pam? ✆

NEWYDDION

CLERC YNADON GWRTH-GYMREIG AC ANEFFEITHIOL

Dychwelwyd siec oedd yn dâl am ddirwy gan Glerc Ynadon Gogledd Cymru.

Cafodd Ben Gregory o Benygroes ddirwy o £247 o ganlyniad i weithred Cymdeithas yr Iaith ym Mehefin 2002. Pan geisiodd ef a'r diffinyddion eraill dalu'r ddirwy, cawsant lyfr talu mewn uniaith Saesneg, ac ni fu pall ar y problemau wedi hyn.

Ym mis Mawrth 2003, wedi pedwar taliad, cafodd Ben Gregory lythyr yn gwadu iddo dalu'r ddirwy. Erbyn Medi 2003, ac yntau'n talu'n gyson, daeth llythyr arall (uniaith Saesneg) yn sôn fod y beili am alw y diwrnod canlynol. Wedi sgwrs awr ar y ffôn, cafodd y gorchymyn beili ei ddileu.

Ar y 25 Hydref, daeth llythyr yn dychwelyd y taliad olaf (£20) gan Glerc yr Ynadon yn dweud na allent dderbyn y siec gan fod warant beili yn ei erbyn. Bellach, mae gŵr amlwg sydd wedi ymddeol ym myd y gyfraith wedi dechrau edrych i mewn i'r mater.

"Mae'r holl broblemau yn codi oherwydd na all y drefn ddygymod â llyfr talu mewn Cymraeg," medd Ben Gregory. "Mae'n gwbl warthus fod hyn yn gallu digwydd yn yr unfed ganrif ar hugain. Mae angen ymchwiliad i'r mater ar frys fel nad yw Cymry Cymraeg yn cael eu trin fel dinasyddion eilradd. Mae'n ddigon anodd delio â'r sefyllfa gyda chefnogaeth mudiad fel Cymdeithas yr Iaith, ond heb y gefnogaeth honno, mae'n saithgwaith caletach. Yn y diwedd, ni fydd pobl yn gofyn am wasanaeth Cymraeg os mai dyma'r erledigaeth a geir." ✆

NEWYDDION AM Y BYD

Rhaag ofn nad oes rhai ohonoch wedi clywed, mae cynlluniau ar waith i lawnsio'r papur newydd dyddiol Cymraeg cyntaf erioed, sef Y Byd. Bydd sefydlu'r Byd yn gam aruthrol o bwysig yn hanes yr iaith a'r gymuned Gymraeg. I wybod mwy ewch i ymweld â'r wefan – **www.ybyd.com**.

Allech chi roi hwb i'r cynllun drwy ymuno â Chlwb Cefnogwyr y Byd. ✆

FFORWM ADDYSG GENEDLAETHOL

Daeth rhwng deugain a hanner cant o bobl i'r Fforwm Addysg a drefnwyd gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg yn y Deml Heddwch yng Nghaerdydd ar Hydref 24ain.

Testun y Fforwm oedd Addysg Berthnasol – Cwricwlwm Cyflawn i Gymru.

Ymysg y rhai yn cymryd rhan yr oedd John Valentine Williams (ACCAC), yr Aelodau Cynulliad Peter Black, Owen John Thomas a Leighton Andrews, a Peter Howard, llywydd NAHT Cymru.

Roedd yno nifer o gynrychiolwyr hefyd o'r awdurdodau addysg lleol, undebau athrawon, ysgolion uwchradd a cholegau addysg bellach.

Trefnwyd y fforwm gan fod Deddf Addysg 2002 yn rhoi'r hawl i'r Cynulliad lunio cwricwlwm Cymreig ac fe ddefnyddiodd y Gymdeithas y fforwm hon i osod yr achos dros gwricwlwm cyflawn a fydd yn galluogi Cymry ifanc i ddeall realiti bywyd yng Nghymru, a sut i ddylanwadu ar y prosesau economaidd, cymdeithasol a gwleidyddol sy'n ffurfio cymdeithas.

Yr hyn a drawai rhywun oedd yr undod barn er gwaethaf y rhychwant gwleidyddol a gynrychiolid yn y fforwm. Os gellir cadw'r undod a'r ysbryd positif oedd yn nodweddu'r cyfarfod mae yna siawns dda iawn y gellir cael y maen i'r wal ac y gwelwn ni sefydlu cwricwlwm cenedlaethol i Gymru a rydd gyfle i'n pobl ifanc chwarae eu rhan fel dinasyddion cyflawn yng Nghymru. ✆

YN LLEOL

SIR GÂR
Y BWRDD YN GWRTHOD ETO – YR UN HEN STORI

Chawsom ni mo'n synnu pan wrthododd Bwrdd yr Iaith ein cynnig i gyflwyno Siarter Sir Gâr yn eu Cyfarfod Cyhoeddus nhw yn Neuadd San Pedr, Caerfyrddin ar ddiwedd Ionawr. Wedi'r cwbl, cwango yw'r Bwrdd sy'n ei chael hi'n anodd i ymrafael â phrosesau democrataidd.

Er mai 'Dyfodol y Gymraeg yn Sir Gâr' oedd y testun trafod, doedd y Gymdeithas ddim yn haeddu lle ar y panel. Y Bwdd yn unig gai ddewis yr 'arbenigwyr' hynny. Yng ngeiriau Sioned Elin, Cadeirydd Rhanbarth Caerfyrddin, "credwn y byddai wedi bod yn fuddiol i'r Bwrdd ganiatau cyflwyniadau gan gyrff sydd wedi bod yn gweithio ar ddyfodol y Gymraeg yn y sir yn lle bod y Bwrdd yn parasiwtio i mewn. Gallent fod wedi cadeirio trafodaeth fuddiol rhwng Cymdeithas yr Iaith a'r cyngor sir."

Gwêl y Gymdeithas bod angen newid strategaeth sylfaenol yn Sir Gâr fel yn nifer o siroedd eraill Cymru. Yn lle ceisio cynyddu nifer yr unigolion sy'n proffesu gwybodaeth o'r Gymraeg, rydym yn galw am adfywio ein cymunedau Cymraeg a sicrhau fod y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n brif gyfrwng pob adran o fywyd cyhoeddus. Fis Chwefror cyhoeddwyd pecyn o gamau i gyflawni hyn gan y Gymdeithas, sef Siarter Sir Gâr.

Dosbarthwyd taflenni yn y cyfarfod a bydd yr ymgyrch yn canolbwyntio'n awr ar ddwyn pwysau ar y cyngor sir i dderbyn Siarter Sir Gâr. ✆

• I gymryd rhan yn yr ymgyrch neu i wybod mwy am waith y Gymdeithas yn Sir Gar cysylltwch â Sioned Elin – sioned@cymdeithas.com

SIARTER SIR GAR

Ym mis Chwefror lawnsiwyd Siarter Sir Gar. Pwysleisa'r siarter yr egwyddorion canlynol:

A Credwn y bydd byw'r Gymraeg yn Sir Gâr yn unig os bydd cyfle naturiol i bawb ddysgu'r iaith, ac i'w defnyddio ym mhob maes o fywyd, ac os daw cynnal ein cymunedau yn ganolbwynt i ystod cyflawn o bolisïau cyhoeddus.
B Credwn fod cyfrifoldeb ar y cyngor sir – fel cynrychiolwyr ein pobl – i weithio'n uniongyrchol tuag at wireddu'r amcanion hyn yn y meysydd lle mae ganddo rym, ac i osod esiampl ac annog eraill lle na medda'r grym uniongyrchol.
C Credwn fod tynged y Gymraeg yn Sir Gâr o arwyddocad dyfnach na mater iaith yn unig. Dyma arwydd a yw gwerthoedd cymunedol yn parhau ac a yw ein cymunedau'n rhydd i lunio eu tynged eu hunain.

Er mwyn rhoi cyfle i'r Gymraeg fyw, argymhellir y camau canlynol:

1 Creu'r Gymraeg yn iaith swyddogol
2 Sicrhau addysg Gymraeg ym mhob Cymuned
3 Llunio strategaeth i adfywio cymunedau Cymraeg
4 Creu cyfleusterau hamdden i sicrhau bod cymunedau Cymraeg yn lleoedd bywiog sy'n cynnig dyfodol i ieuenctid
5 Dylai'r cyngor sir bwyso ar awdurdodau priodol eraill am weithredu ar faterion tu allan i reolaeth y Cyngor

Hyd yn hyn, bu pwyslais ar gynyddu nifer yr unigolion sy'n hawlio gwybodaeth o'r Gymraeg. Yn y dyfodol, rhaid canolbwyntio ar hybu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

Am ragor o wybodaeth ac am gopi llawn o'r Siarter cysylltwch â'r brif swyddfa.

CAERDYDD
HWYL AC ABRI

Mae nosweithiau Abri yn y brifddinas yn mynd o nerth i nerth, gyda rhaglen eang o gerddorion gorau Cymru yn ymddangos ar nos lau ola bob mis yng nghlwb y Toucan ar Heol Eglwys Fair, nifer ohonynt gyda setiau acwstig arbennig ar gyfer y noson.

• **Mawrth 25** Texas Radio Band, Y Panics, 'King Biwt, DJ Brave Captain
• **Ebrill 29** Zabrinski, Elin Fflur, DJ Gareth Potter

Pris mynediad yn £5/£4, 9pm-2am. Manylion llawn ar **www.cymdeithas.com/abri**

YN LLEOL

CEREDIGION
AELODAU IFAINC YN GWRTHWYNEBU POLISÏAU TAI

Mae rhai o aelodau ifainc Cymdeithas yr Iaith yng Ngheredigion wedi cyflwyno deiseb i Dai Lloyd Evans, arweinydd y cyngor sir. Roedd y ddeiseb yn mynegi gwrthwynebiad i'r polisïau tai a amlinellir yn y cynllun datblygu unedol presennol ac yn galw ar y cyngor i weithredu strategaeth gyflawn er lles cynunedau Cymraeg y sir.

Noda'r ddeiseb: "Yr ydym ni sydd yn fyfyrwyr ysgol yng Ngheredigion yn galw ar y cyngor i sicrhau dyfodol i gymunedau Cymraeg y sir. Gwrthwynebwn y cynllun datblygu unedol ac yn lle hynny gofynnwn i'r cyngor sefydlu strategaeth ar ran tai, gwaith, trafnidiaeth cyhoeddus a bywyd cymdeithasol er mwyn galluogi ein cenhedlaeth ni i fyw a gweithio yn y sir."

Meddai Gwenno Teifi, aelod o gell Ysgol Gyfun Dyffryn Teifi ac un o'r rhai fu'n casglu enwau ar y ddeiseb, "dros yr wythnosau diwethaf, bu rhai o aelodau ifainc Cymdeithas yr Iaith yng Ngheredigion yn casglu enwau ar y ddeiseb, er mwyn mynegi gwrthwynebiad i'r syniad o ddyrannu tir ar gyfer hyd at 6,500 o dai.

"Mae'n hollbwysig ein bod ni fel pobl ifainc yn codi llais, gan mai ni yw dyfodol Ceredigion ac felly ni fydd yn cael ein heffeithio gan bolisiau anghyfrifol o'r fath."

BETH YW'R CYNLLUN DATBLYGU?

Mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg wedi cyhuddo arweinyddiaeth Cyngor Sir Ceredigion o fethu'n llwyr ag ymateb i ddyheadau pobl y sir, sef paratoi cynllun datblygu unedol a fydd yn sicrhau dyfodol i gymunedau lleol a'r iaith Gymraeg.

Meddai Angharad Clwyd, Cadeirydd Rhanbarth Ceredigion o Gymdeithas yr Iaith:

"Ymddengys fel petai arweinyddiaeth Cyngor Ceredigion yn benderfynol o barhau gyda'r cynllun datblygu unedol presennol – cynllun a fydd yn tanseilio rhagolygon cymunedau'r sir a'r iaith Gymraeg. Maent am wneud hyn ar waethaf gwrthwynebiadau o sawl gwahanol cyfeiriad."

Rhestrodd Angharad Clwyd rai o bryderon Cymdeithas yr Iaith:

"Dro ar ôl tro gwelir swyddogion Cyngor Ceredigion yn dadlau mewn ffordd simplistic nad yw'r CDU yn ddim mwy na mater o reoli defnydd tir. Serch hynny, mae'n rhaid iddynt dderbyn fod gan y drefn gynllunio rol allweddol i'w chwarae wrth sicrhau dyfodol cynaladwy i'r Gymraeg fel iaith gymunedol fyw.

"Ar ben hynny, maen rhaid iddynt sicrhau fod sefyllfa'r Gymraeg yn cael ei ystyried yn llawn wrth drafod ceisiadau cynllunio. Nid yw dweud yn syml fod y Gymraeg yn bwysig yn ddigon da – mae'n rhaid i hynny gael ei adlewyrchu mewn polisïau gweithredol.

"Yn ogystal, dim ond wrth seilio polisïau tai'r CDU ar ymchwil manwl o'r angen lleol y gellir sicrhau polisïau teg. Nid yw'r bwriad presennol o roi caniatad ar gyfer 6,500 o dai wedi ei seilio ar ymchwil ac felly ni fydd yn ateb anghenion pobl y sir."

CYMUNEDAU

CYLLID I'N CYMUNEDAU – HER Y GYMDEITHAS

Dros bythefnos ym mis Awst, cerddodd aelodau o Gymdeithas yr Iaith bob cam o Langefni i Gaerdydd, gan ymweld â nifer o gymunedau gwahanol. Gwnaed hyn er mwyn tynnu sylw at yr argyfwng tai sydd yn wynebu cymunedau ar draws Cymru ac i bwysleisioí'r camau hynny y dylai llywodraeth Cymru eu cymryd i leddfu'r sefyllfa.

Yn ystod y daith gwahoddwyd pobl i arwyddo'r 'Datganiad dros ddyfodol cymunedau Cymru'. Dyma ddatganiad o egwyddorion a ddylai fod yn sail i bolisïau cyfrifol ym maes tai. Derbyniwyd llawer iawn o gefnogaeth i'r datganiad hwn, gyda rhai cannoedd o bobl yn ei arwyddo, gan gynnwys aelodau o'r Cynulliad, Aelodau Seneddol a chynghorwyr sir. Yn ogystal, mae'r datganiad wedi derbyn cefnogaeth dros 130 o gynghorau cymuned.

Bellach, mae yna gytundeb cyffredinol ynglŷn â bodolaeth yr argyfwng tai, ynghyd â'r ffaith ei fod yn cyfrannu at danseilio rhagolygon yr iaith Gymraeg. Ac o ystyried y gefnogaeth a gafodd aelodau'r Gymdeithas – gan bobl o bob rhan o Gymru – yn ystod y daith yma, does dim amheuaeth fod yna ddisgwyl i lywodraeth Cymru gymryd camau pendant i leddfu'r sefyllfa.

Mae yna rai camau penodol y dylid eu cymryd nawr. Dylid sicrhau cynnydd sylweddol yn yr arian a ddarperir ar gyfer y Cynllun Cymorth Prynu. Yn ogystal, dylid darparu digon o gyllid ar gyfer sefydlu'r 'Hawl i Rentu'. Byddai gweithredu yn y meysydd hyn yn gam cadarnhaol tuag at gyllido dyfodol i'n cymunedau.

• Y cerddwyr yn cyrraedd swyddfeydd y llywodraeth yng Nghaerdydd

CYMUNEDAU

CODI LLAIS
RALI CAERDYDD

Daeth cannoedd o gefnogwyr Cymdeithas yr Iaith i rali yng Nghaerdydd ym mis Tachwedd i alw ar lywodraeth Cymru i weithredu ar unwaith dros ddyfodol cymunedau Cymraeg

Roedd y rali yn benllanw blwyddyn o ymgyrchu dros ddyfodol ein cymunedau. Cynhaliwyd dwy lobi, y naill yn Llundain a'r llall yng Nghaerdydd. Trefnwyd cyfarfodydd gyda llu o wleidyddion Cymreig a chafwyd taith gerdded o Langefni i Gaerdydd. Llwyddwyd i gael cefnogaeth dros 130 o gynghorau cymuned i'r Datganiad Dros Ddyfodol Cymunedau Cymru ynghyd â chefnogaeth nifer fawr o fudiadau a sefydliadau cenedlaethol fel Undeb Amaethwyr Cymru, Merched y Wawr ac UCAC.

Chwith: **Siân Howys gyda'r cannoedd o ddatganiadau o gefnogaeth. Chwith** Isod: **Rhai o'r dorf yn neuadd Undeb y Myfyrwyr.** Isod: **Huw Lewis yn annerch y rali ym Mharc Cathays ar ôl cyflwyno'r datganiadau i'r llywodraeth.**

Ymhlith y siaradwyr yn y rali roedd Hywel Teifi, Siân Howys ac Alun Fred. Un a wnaeth argraff arbennig ar y gynulleidfa oedd **Leanne Wood**, sydd wrthi'n dysgu Cymraeg ar hyn o bryd. Os na lwyddoch i ddod i Gaerdydd, dyma flas ar ei haraith i chi...

Dwi'n teimlo'n flin am y ffaith na ches i'r cyfle i ddysgu Cymraeg pan o'n i'n blentyn. Mae'n anoddach dysgu fel oedolyn. Hoffwn i fod wedi cael y cyfle i dderbyn fy addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae llawer mwy o blant yn cael y cyfle i wneud hyn heddiw, sydd yn fendigedig – ond wrth gwrs dyw hyn ddim yn ddigon ar ben ei hunan...

Our communities only have a future if people can remain in their communities, if that is what they want to do. In Wales, it has been very difficult to have a rational debate on the future of our communities.

The principles and policies put forward by Cymdeithas yr laith are not only sensible and rational, but are firmly on the left of the political spectrum. That is why I'm very happy to be here today and to be a member of Cymdeithas yr laith – because Cymdeithas has refused to be sidetracked from the task ahead of us, but has put the arguments and the policies forward consistently over the years. Ten years ago, the notion of a Property Act – of any kind of regulation over the housing market – was dismissed by many people. It was seen as something extreme, totally unworkable and out of reach. By now, thankfully,

Cymdeithas has refused to be sidetracked from the task ahead of us

the debate has moved on. There is now support for many of the basic principles embodied in our Property Act. Support from policy developers, political parties, community councils and local authorities. There is a growing acceptance that the current situation, if allowed to continue, will irrevocably damage our communities.

Most people can see this. Most people, that is, apart

There is now support for many of the basic principles embodied in our Property Act

from the Welsh Assembly Government. It seems that they are the only ones who haven't recognised that the free market cannot and will not deliver for our communities.

Where is the political will to change Wales for the better? I see no evidence – no attempt to fight privatisation and housing stock transfer. So-called Welsh Labour have embraced the free market that their masters in London are so fond of. WAG are not interested in socialist or any other solutions to the crisis facing our communities.

We know that this campaign is not just about the Welsh language. Not just about houses. It's part of a wider battle to give the people of Wales the freedom and the means to take control of their own lives. And it's also part of the international struggle for justice and peace which Cymdeithas has identified and united with over many years.

I'm proud to be part of this campaign that is as relevant in Penygraig as it is in Penygroes. It's been a long haul up til now, and there's more to come. But there is no question, we have to win it. The future of our language depends on it.

Chwith i'r Dde: **Hywel Teifi, Alun Ffred a Leanne Wood**

STATWS

DEDDF IAITH NEWYDD YR ANRHEG PERFFAITH!

Cynhaliwyd 'Trip Siopa Dros Ddeddf Iaith Newydd' ychydig cyn Nadolig, gan ymweld â nifer o siopau Caerfyrddin, yn cynnwys Argos a siopau ffonau symudol. Roedd y daith siopa yn dangos mor aneffeithiol fu'r Ddeddf Iaith a basiwyd ddeng mlynedd yn ôl i sicrhau lle i'r Gymraeg yn y sector preifat.

Gwahoddwyd Meirion Prys Jones, Prif Weithredwr newydd Bwrdd yr Iaith, i'r brotest – a arweiniwyd gan Sion Corn ei hun. Er mai tymor ewyllys da ydoedd, prin iawn oedd yr 'ewyllys da' hudol tuag at y Gymraeg, sonia'r Bwrdd amdano yn gyson.

Gan na lwyddwyd i gael gwasanaeth Cymraeg yn yr un o'r siopau cadwyn ar y daith drwy'r dre (er gwaethaf canu carolau swynol a Sion Corn llawen), penderfynwyd postio cerdyn at y Gweinidog Iaith yn y Cynulliad yn gofyn am Ddeddf Iaith newydd gynhwysfawr. Os y'n ni gyd yn blant bach da eleni, efallai cawn ni un yn anrheg arbennig iawn erbyn y Nadolig yma. Fel arall, gallwn ddechrau fod yn blant drwg iawn... ✆

Trip siopa Nadolig yng Nghaerfyrddin: ar y stryd, meddiannu siopau, a gyrru cyfarchion nadolig i'r Cynulliad

Y ROCWYR BWYD CYFLYM

Mae ymgyrchwyr llwglyd wedi cynnal cyfres o brotestiadau yn erbyn McDonalds a chwmnïau bwyd cyflym. Prif fwriad y protestiadau oedd galw arnynt i gynnig gwasanaeth Cymraeg cyflawn.

Picedwyd canghennau yng Nghaerfyrddin, Caerdydd, ac Aberystwyth.

Ni ddylem synnu nad yw McDonalds yn parchu hawl pobl Cymru i ddefnyddio'r iaith Gymraeg, gan mai nid gwasanaethu ein cymunedau lleol yw nod y cwmni. Caiff hyn ei bwysleisio ymhellach o ystyried y ffaith nad ydynt yn barod i gefnogi'r economi leol trwy wneud defnydd o gynnyrch amaethwyr lleol.

Cafodd tri aelod o'r Gymdeithas eu harestio yn ystod y brotest yn Aberystwyth.

Protestiadau yng Nghaerdydd a Chaerfyrddin

TECHNOLEG

BILL GATES A'R BWRDD ENEIDIAU HOFF GYTUN?

Mae na fersiwn Cymraeg o Windows ar y ffordd, yn ôl y Bwrdd Iaith...

Mae cwmni Microsoft yn feistri ar farchnata pecynnau meddalwedd di-ddim, gwallus ac anaddas at eu pwrpas. Pob tro maent yn rhyddhau fersiwn newydd o Windows, maent yn gaddo diwedd i'n trafferthion cyfrifiadurol i gyd. Wrth gwrs, mae pob un ohonom sydd wedi gorfod defnyddio eu systemau yn gwybod yn iawn mai geiriau gwag yw'r rhain, ac felly mae'n hynod o addas eu bod wedi ffeindio partneriaid newydd ym Mwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae'r Bwrdd hefyd yn gaddo trawsnewid ein byd yn reit aml, gyda record yr un mor drychinebus â Microsoft.

"Bydd siopau Tesco i gyd yn ddwyieithog!" medde nhw – gwych! Ac yna... **`"This press release has performed an illegal function and will not be carried out."`**

"**Ry'n ni'n trefnu gwasanaeth Cymraeg gan Orange!"** – bendigedig. O na... **`"The policy quit unexpectedly. Close all windows and restart campaigning."`**

A dyma'r diweddara yn dod – cyhoeddiad bod fersiwn Cymraeg o Windows ac Office ar y gweill. Mae Cymdeithas yr Iaith wedi bod yn galw ar y Cynulliad i weithredu dros y Gymraeg ym myd technoleg ers tro byd, felly rydym yn croesawu'r datblygiad yma... o, arhoswch funud – **`"Language Protection Error – FullWelshVersion.Exe not found."`** O diar.

Broliodd Rhodri Williams y bydd gennym fersiwn "cyfangwbl Gymraeg" o Windows. Ond dim ond rhyw 80% ar y mwya fydd yn Gymraeg. Bydd y ffeiliau Cymorth, er enghraifft, i gyd yn uniaith Saesneg.

`"The policy quit unexpectedly. Close all windows and restart campaigning."`

"Bydd busnesau, cyrff cyhoeddus a phrifysgolion i gyd yn manteisio ar gyfrifiaduron Cymraeg!" meddai'r Bwrdd. Wel, na fyddan, oherwydd hac i roi 'croen' Cymraeg ar ben un Saesneg yw hwn, ac nid oes modd ei dynnu o'r cyfrifiadur wedyn chwaith.

Faint o gyrff sydd ag adrannau IT i gyd yn siarad Cymraeg? Dim llawer. Wnawn nhw ddim gadael y pecyn yn agos i'w cyfrifiaduron am na fyddan nhw'n eu deall nhw os oes angen eu trwsio.

"Ond bydd unigolion gartref yn gallu defnyddio PC Cymraeg!" Dim lwc fan hyn chwaith, oherwydd dim ond y fersiwn 'proffesiynol' sy'n cael ei drosi, ac nid yw hynny ar gael i unigolion heb dalu crocbris amdano.

Felly, yr hyn sydd gyda ni yw ryw hanner cyfieithiad na fydd o werth i unrhywun.

Ar ben hyn oll, mae Microsoft wedi ei ddyfarnu'n euog o redeg monopoli anghyfreithlon. Pam yn y byd mae'r Cynulliad a'r Bwrdd yn atgyfnerthu a chefnogi'r fath gwmni? Gwell o lawer fyddai canolbwyntio ar sicrhau fersiynau Cymraeg o feddalwedd rhydd, côd agored megis Linux ac OpenOffice. Hyd yma, criw bach o wirfoddolwyr sydd wedi bod yn gweithio ar y rhain, heb ddim help gan y Bwrdd.

Mae Bill Gates yn ddyn cyfoethog dros ben, ac fe'i disgrifiwyd gan y barnwr yn yr achos yn erbyn Microsoft fel dyn "trahaus" ac "amhosib ymddiried ynddo". Ond dyna ni, efallai ei fod ef a rhai o swyddogion y Bwrdd yn eneidiau hoff gytun ac mai dyna sydd i gyfrif am y datganiad diweddaraf hwn.

Ond mae'r cyhoeddiad yma yr un mor diwerth â thrwch datganiadau eraill y Bwrdd Iaith. Nid yw'n rhoi lle teilwng i'r Gymraeg ym myd technoleg, sef yr hyn y mae'r Gymdeithas wedi bod yn ymgyrchu drosto.

Dyna drueni nad oes yna fotwm **`"Shutdown"`** ar Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

Cân Ffarwel i
John Walter Jones
ar ei ymddeoliad fel Prif
Weithredwr Bwrdd yr Iaith

Ta ta John Walter, rwyt ti'n mynd,
Hen ffrind a chyfaill hoffus.
Ni wnaeth neb fwy, mae hynny'n ffaith,
I wella'n heniaith glwyfus.

Dy lafur sydd yn uwch ei fri
Na llafur Salesbury'i hunan,
A gwnaethost fwy dros iaith dy fam
Na'r Esgob William Morgan.

Emrys ap Iwan a wnaeth lai,
Medd rhai, dros iaith mewn creisis,
Yn wir, rhagora'r hyn a wnest
Ar orchest Saunders Lewis.

A gwnest y cyfan gyda gras,
Heb fod yn gas a phigog,
Ni chlywyd dychan ar dy fin
Na geiriau blin gwiberog.

Mwy camp yn wir gyflawnaist ti
Na'r llu protestwyr llafar,
Gan wneud hyn oll heb golli chwys
Na mynd i lys na charchar.

Ti a Syr Wyn yw'r gorau gŵyr,
Ein cymwynaswyr serchog:
Mae rhai yn dweud, mewn fawr o dro,
Y byddi fel fo yn Farchog.

Un o'th edmygwyr

Rali Genedlaethol

Protest ryng-golegol y myfyrwyr

Dydd Mawrth y 9fed o Fawrth

Myfyrwyr yn campio tu allan i'r Cynulliad.
6 yr hwyr. Gwisgwch yn gynnes.

Dydd Mercher y 10fed o Fawrth

Rali. Gorymdeithio o'r Eglwys Norwyaidd i'r Cynulliad.10.30. Siaradwyr Gwâdd

Croeso mawr i bawb sy'n cefnogi safiad y myfyrwyr dros Goleg Ffederal Cymraeg

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â UMCA

(01970) 621739 ced@aber.ac.uk

AWEN MEIRION cyf.

25 STRYD FAWR · Y BALA · GWYNEDD · LL23 7AG
☎ (01678) 520658 e:gwyn@sionifan.fsnet.co.uk

YN DDEG AR HUGAIN OED!

LLYFRAU · CASETIAU
DISGIAU · FIDEOS

CARDIAU AT BOB ACHLYSUR

CRYSAU **'COWBOIS'**

CROCHENWAITH TREGARON

Gemwaith Rhiannon

...a llawer iawn mwy!

CYFLENWYR YSGOLION A LLYFRGELLOEDD

GWASANAETH POST BYD EANG!

LLUN I SADWRN 9.00 - 5.30

CYF CYFF '04

CYFARFOD CYFFREDINOL 2004

DYDD SADWRN, MAWRTH 6
Y LOLFA FACH,
NEUADD PANTYCELYN,
ABERYSTWYTH

RHAGLEN

10.30 **Cofrestru**

11.00 **Sesiwn 1 – Addysg**
Cyflwyniad
Cynigion

11.30 **Sesiwn 2 – Materion Cyffredinol**
Cynigion (Gwreiddiwch yn y Gymuned, Senedd i Gymru)

12.00 **Sesiwn 3 – Cymunedau Rhydd**
Cyflwyniad
Cynigion

12.30 **Cinio** (bwyd ar gael)
Dros ginio – Sesiwn Arbennig
Gweithredu Uniongyrchol

14.00 **Siaradwr Gwadd**
Hywel Williams AS

15.00 **Sesiwn 4 – Deddf Iaith Newydd**
Cyflwyniad
Cynigion

15.30 **Sesiwn 5 – Materion Cyffredinol**
Cynigion (Rhanbarthau, Cyngrheirio)

16.00 Cyhoeddi enwau aelodau Senedd Cymdeithas yr Iaith 2004-05

1. ADDYSG GYMRAEG

Noda'r Cyfarfod Cyffredinol:
- benderfyniad diweddar Jane Davidson i wrthod sefydlu ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yng Nghaerffili
- fod diffygion difrifol ar hyn o bryd yn nhrefn datblygu addysg Gymraeg ar bob lefel
- bod y cynnydd a fu yn y gorffennol, wedi bod yn sgil ymgyrchu penderfynol yn hytrach na chynllunio bwriadol gan y llywodraeth

Cred y Cyfarfod Cyffredinol:
- y dylai fod gan bawb yng Nghymru yr hawl i dderbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg
- bod sicrhau darpariaeth gyflawn o addysg Gymraeg yn gam hollbwysig tuag at sicrhau dyfodol i'r iaith
- bod penderfyniadau diweddar y Gweinidog Addysg yn fygythiad difrifol i dwf y Gymraeg

Penderfyna'r Cyfarfod Cyffredinol:
- y dylai Cymdeithas yr Iaith ymgyrchu er mwyn pwyso ar Lywodraeth y Cynulliad i lunio strategaeth genedlaethol ar gyfer datblygu addysg Gymraeg. Dylai strategaeth o'r fath roi sylw i bob lefel o'r sbectrwm addysg – meithrin, cynradd, uwchradd, prifysgol, addysg bellach ac hefyd addysg gydol oes
- y dylai Senedd Cymdeithas yr Iaith drafod ar fyrder sut i roi ymgyrch o'r fath ar waith
- fod y galwadau hyn yn cael eu cyflwyno law yn llaw gyda galwadau eraill Cymdeithas yr Iaith ym maes addysg, gan bwysleisio felly fod newid cynnwys ein haddysg yr un mor bwysig a iaith y cyfrwng

Cynigydd – Cell Gogledd Ceredigion

2. ADDYSG ÔL 16 — BYGYTHIADAU I CHWECHED DOSBARTH

Noda'r Cyfarfod Cyffredinol:
- y bygythiadau cynyddol i ddyfodol y chweched dosbarth yn nifer o ysgolion ledled Cymru yn sgil polisïau Llywodraeth y Cynulliad ac Elwa

- y cam a wnaed â chymuned y Bala pan ddilëwyd y chweched dosbarth yn Ysgol y Berwyn

Cred y Cyfarfod Cyffredinol:
- bod y bygythiad o du Llywodraeth y Cynulliad a gan Elwa yn un difrifol, nid yn unig i ddyfodol addysg Gymraeg ôl 16 oed, ond hefyd i ddyfodol rhai o gymunedau Cymreiciaf Cymru

Penderfyna'r Cyfarfod Cyffredinol:
- i gyfarwyddo Grŵp Ymgyrchu Addysg Cymdeithas yr Iaith i weithredu ar ei hunion yn erbyn y bygythiadau i ddyfodol chweched dosbarth ysgolion uwchradd Cymru

Cynigydd – Leusa Fflur
Eilydd – Gwyn Sion Ifan

3. STRATEGAETH GORFFORAETHOL I DDATBLYGU YSGOLION PENTREFOL

Noda'r Cyfarfod Cyffredinol:
- ymosodiadau cynghorau siroedd Caerfyrddin a Phenfro – mewn cydweithrediad â Llywodraeth y Cynulliad – ar ysgolion pentrefol Cymraeg

Cred y Cyfarfod Cyffredinol:
- fod yr ymosodiadau hyn yn gwbwl anghyfiawn o safbwynt addysgol ac yn niweidiol iawn i ddatblygiad y plant ac i barhad cymunedau pentrefol Cymraeg
- mai cyfleustra gweinyddol di-weledigaeth sydd wrth wraidd yr ymosodiadau hyn. Yn wir, yn dilyn y penderfyniad i gau ysgol Iwyddiannus a gorlawn yn Hermon, credwn fod bygythiad i bob ysgol bentrefol yng Nghymru

Galwa'r Cyfarfod Cyffredinol:
- ar Lywodraeth y Cynulliad ac ar gynghorau sir i greu strategaeth gorfforaethol ar gyfer datblygu yr ysgolion yn ganolfannau ar gyfer adferiad cymunedol. Dylent gynnig ystod eang o wasanaethau, megis addysg gymunedol, cymhathu mewnfudwyr, dysgu sgiliau newydd, darparu gwasanaethau cyhoeddus yn ogystal â chynnig addysg statudol i blant o oed cynradd. Dylent hefyd rannu adnoddau gydag ysgolion cyfagos

Cyfarwydda'r Cyfarfod Cyffredinol:
- Grŵp Ymgyrchu Addysg Cymdeithas yr Iaith i gasglu cefnogaeth eang i strategaeth o'r fath ac i ddwyn pwysau ar Lywodraeth y Cynulliad

Cynigydd – Grŵp Addysg

4. CWRICWLWM I GYMRU — GWRANDO AR LAIS MYFYRWYR YSGOL

Noda'r Cyfarfod Cyffredinol:
- fod ACCAC yn cynnal adolygiad cwricwlwm

Cred y Cyfarfod Cyffredinol:
- y dylai adolygiad ACCAC arwain at lunio cwricwlwm cyflawn a fydd yn grymuso Cymry ifainc gyda'r wybodaeth a'r sgiliau i gyfrannu'n llawn at y broses o ddatblygu ein cymunedau lleol

Galwa'r Cyfarfod Cyffredinol:
- ar Lywodraeth y Cynulliad i gyllido ymgynghoriad cyfamserol a fydd yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ysgol – trwy fforymau sirol – i fynegi eu barn hwythau ynglŷn â dyfodol y cwricwlwm
- ar Lywodraeth y Cynulliad i gyfarwyddo cynghorau sir Cymru i ymgynghori'n ffurfiol gyda fforymau o fyfyrwyr ysgol ynglŷn â chynnwys strategaethau cymunedol a chynlluniau datblygu unedol

Cynigydd – Grŵp Addysg

5. COLEG FFEDERAL CYMRAEG

Noda'r Cyfarfod Cyffredinol:
- y protestiadau a drefnwyd eleni gan UMCA yn tynnu sylw at ddiffyg darpariaeth Gymraeg Prifysgol Cymru ac yn galw am sefydlu Coleg Ffederal Cymraeg
- y brotest genedlaethol dros addysg Gymraeg a gynhelir gan UMCA yng Nghaerdydd ar y 10fed o Fawrth 2004

Cred y Cyfarfod Cyffredinol:
- y dylai fod gan bob myfyriwr yr hawl i dderbyn ei addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ym Mhrifysgol Cymru
- bod hwn yn gam hollbwysig er mwyn sicrhau dyfodol i'r Gymraeg

Cred Cyfarfod Cyffredinol:
- y dylai Cymdeithas yr Iaith ddatgan ei chefnogaeth i alwad y myfyrwyr am Goleg Ffederal Cymraeg
- y dylid sicrhau cefnogaeth i'r brotest genedlaethol a gynhelir yng Nghaerdydd ar ddydd Mercher y 10fed o Fawrth 2004

Cynigydd – Catrin Dafydd
Eilydd – Rhys Llwyd

6. GWREIDDIWCH YN Y GYMUNED

Noda'r Cyfarfod Cyffredinol:
- bod y duedd o ganoli grym economaidd yn fygythiad cynyddol i'n cymunedau a'r iaith Gymraeg
- bod nifer o enghreifftiau o hyn, o gwmnïau yn cau pencadlysoedd a dileu swyddi, i gyrff cyhoeddus a phreifat yn ecsploetio amaethwyr
- bod Cymdeithas yr Iaith eisioes wedi trafod rhai agweddau o'r broblem hon, er engrhaifft ym Maniffesto 2003, yn y papur trafod Gwreiddiwch yn y Gymuned ac mewn cyfarfodydd cyhoeddus

Cred y Cyfarfod Cyffredinol:
- y dylai Cymdeithas yr Iaith, yn ystod 2004, ymgyrchu er mwyn tynnu sylw at fygythiadau economaidd i gymunedau Cymru
- y dylid cwilio am gyfleoedd i gyngrheirio gyda chyrff a mudiadau eraill, megis rhai amgylcheddol ac amaethyddol

Pendefyna'r Cyfarfod Cyffredinol:
- y dylid sefydlu grŵp ymgyrchu newydd o'r enw 'Gwreiddiwch yn y Gymuned' er mwyn canolbwyntio ar y maes pwysig hwn
- y dylid ethol cynullydd i'r grŵp a fydd yn aelod llawn o senedd Cymdeithas yr Iaith
- mai prif waith y grŵp yn ystod y flwyddyn nesaf fydd adeiladu cysylltiadau gyda grwpiau eraill a chrisialu cyfres o alwadau polisi penodol

Cynigydd – Huw Lewis

7. SENEDD I GYMRU

Noda'r Cyfarfod Cyffredinol:
- y byddai deddfwriaeth gadarn i warchod yr iaith Gymraeg yn fwy tebygol o gael ei basio pe bai gan Gymru senedd a phwerau cynradd
- bod angen i Gymdeithas yr Iaith fod yn flaengar yn ei ymateb i argymhellion Comisiwn Richard
- nad oes digon o ymgyrchu effeithiol ar hyn o bryd i sicrhau Senedd i Gymru
- y bydd peryg i Gymdeithas yr Iaith gael ei ynysu o brif drafodaethau gwleidyddiaeth Cymru os nad yw'n datgan barn glir ar y mater hwn

Cred y Cyfarfod Cyffredinol:
- bod yr angen am Senedd i Gymru yn fater hollbwysig i ddyfodl yr iaith Gymraeg

Penderfyna'r Cyfarfod Cyffredinol:
- y dylid sefydlu grŵp newydd ar senedd Cymdeithas yr Iaith i ymgyrchu o blaid Senedd i Gymru
- y dylid ethol swyddogion i'r grŵp ar lawr y Cyfarfod Cyffredinol

Cynigydd – Rhodri Davies
Eilydd – Rhys Llwyd

8. CYMUNEDAU RHYDD

Noda'r Cyfarfod Cyffredinol:
- bod dros 130 o gynghorau cymuned wedi datgan cefnogaeth i alwadau Cymdeithas yr Iaith ym maes tai a chynllunio
- bod y galwadau hyn yn cynnwys yr angen i gynyddu'r gyllideb ar gyfer y Cynllun Cymorth Prynu ac hefyd yr angen am arian ychwanegol ar gyfer sefydlu'r Hawl i Rentu

- nad oedd cyllideb diwethaf Llywodraeth y Cynulliad yn cynnwys arian ychwanegol ar gyfer polisïau o'r fath

Cred y Cyfarfod Cyffredinol:
- bod angen cynnydd sylweddol yng nghyllideb tai presennol Llywodraeth y Cynulliad er mwyn cychwyn ar y gwaith o fynd i'r afael â'r bygythiadau sydd yn wynebu ein cymunedau

Penderfyna'r Cyfarfod Cyffredinol:
- mai'r galwadau cyllido hyn ddylai fod yn brif ffocws i'r grŵp ymgyrchu Cymunedau Rhydd dros y flwyddyn nesaf ac y dylid sicrhau eu bod yn cael eu dwyn i sylw Llywodraeth y Cynulliad
- y dylid disgwyl cynnydd sylweddol yng nghyllideb tai nesaf y llywodraeth, a fydd yn cael ei gyhoeddi ar ddiwedd 2004
- y dylai'r pwyso hyn gynnwys ymgyrchu gweithredol, er mwyn hoelio sylw Llywodraeth y Cynulliad ar bwysigrwydd y gyllideb

Cynigydd – Grŵp Cymunedau Rhydd

9. DEDDF IAITH NEWYDD

Noda'r Cyfarfod Cyffredinol:
- bod deng mlynedd bellach ers pasio Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a sefydlu Bwrdd yr Iaith Gymraeg fel corff statudol
- bod cyrff preifat ac hefyd nifer o gyrff cyhoeddus yn parhau i fethu yn llwyr yn eu cyfrifoldeb i ddarparu gwasanaethau Cymraeg i bobl Cymru

Cred y Cyfarfod Cyfredinol:
- bod grymoedd y Ddeddf Iaith bresennol yn gwbwl annigonol a'u bod wedi methu sicrhau hawliau sylfaenol i siaradwyr Cymraeg ym maes addysg, gweinyddiaeth gyhoeddus na'r sector breifat
- yn benodol, mae'r ddadl y gellir dibynnu ar gwmnïau preifat i ddarparu gwasanaethau Cymraeg trwy ddibynnu ar eu hewyllys da, yn gwbwl anghywir
- bod sicrhau Deddf Iaith Newydd yn gam hanfodol yn y gwaith o adeiladu Cymru wirioneddol ddwyieithog

Penderfyna'r Cyfarfod Cyffredinol:
- y dylai'r Grŵp Ymgyrchu Deddf Iaith drefnu ymgyrch weithredol, gyda'r bwriad o dynnu sylw at fethiannau Deddf Iaith 1993
- y dylid canolbwyntio ar gwmnïau sydd, yn y gorffennol (yn ôl y Bwrdd Iaith) wedi ymrwymo i gynnig gwasanaeth Cymraeg, ond sydd eto i weithredu ar eu haddewidion
- y dylid hefyd rhoi sylw i gyrff cyhoeddus gan bwysleisio yr angen am weinyddu mewnol Cymraeg neu ddwyieithog
- ymhellach, y dylid gwneud ymdrech bwrpasol dros y flwyddyn nesaf i gasglu cefnogaeth i'r alwad hon ymhlith cyrff perthnasol

Cynigydd: Grŵp Deddf Iaith

10. RHANBARTHAU

Noda'r Cyfarfod Cyffredinol:
- nad yw system ranbarthau'r Gymdeithas wedi gweithredu'n gyson effeithiol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i rai celloedd lleol, ysgolion a cholegau weithredu'n effeithiol gan nad oes cyswllt penodol rhwng y gell a'r Senedd

Penderfyna'r Cyfarfod Cyffredinol:
- y dylid newid y system bresennol a sefydlu'r rhanbarthau canlynol:
  - Gwynedd-Môn
  - Clwyd
  - Ceredigion
  - Caerfyrddin-Penfro
  - Morgannwg-Gwent
  - Powys

Cyfarwydda'r Cyfarfod Cyffredinol:
- y rhanbarthau i gwrdd yn fisol. Dylid cynnal cyfarfod cyntaf i bob rhanbarth o dan y drefn newydd hon cyn diwedd mis Ebrill 2004 (amserau a lleoliadau i gael eu pennu gan y cadeiryddion rhanbarth presennol lle bo rhai yn

eu lle, a gan y Senedd lle nad oes)
- y dylai pob rhanbarth ethol Cadeirydd a swyddogion eraill a threfnu amserau a lleoliadau gweddill cyfarfodydd y flwyddyn hyd at Fawrth 2005 yn y cyfarfod cychwynol hwn. Dylid dilyn yr un drefn yn flynyddol wedi hynny
- y dylai cadeiryddion y rhanbarthau fynychu pob cyfarfod Senedd misol, ac os nad yw hyn yn bosibl, dylai'r rhanbarth benodi dirprwy
- y rhanbarthau i roi blaenoriaeth yn ystod y flwyddyn nesaf i hybu creu celloedd newydd yn ogystal â chydweithio'n agos gyda'r celloedd sy'n bodoli'n barod. Yn ychwanegol at y gwaith yma bydd angen parhau i bwyso ar gynghorau sir a pharhau gydag unrhyw ymgyrchoedd lleol eraill
- y Senedd i lunio strategaeth ar gyfer ail-gychwyn neu gynnal gweithgaredd y rhanbarth os oes trafferth penodi swyddogion mewn rhai ardaloedd

Cynigydd - Hedd Gwynfor
Eilydd - Aled Davies

11. SIARTRAU SIROL

Noda'r Cyfarfod Cyffredinol:
- ganlyniadau manwl Cyfrifiad 2001 a oedd yn dangos dirywiad pellach yn ein cymunedau Cymraeg

Cred y Cyfarfod Cyffredinol:
- bod angen gweithredu pwrpasol a brys gan awdurdodau lleol ledled Cymru, er mwyn mynd i'r afael â'r bygythiadau sydd yn wynebu ein cymunedau
- y dylai gweithredu o'r fath roi sylw i anghenion ein cymunedau mewn amrediad eang o feysydd, megis tai, cynllunio, gwaith, trafnidiaeth ac addysg

Penderfyna'r Cyfarfod Cyffredinol:
- y dylai Cymdeithas yr Iaith alw ar awdurdodau lleol ledled Cymru i lunio strategaethau corfforaethol manwl a fydd yn tynnu ynghyd y gwahanol gamau y bwriadant eu cymeryd er lles ein cymunedau mewn gwahanol feysydd
- y dylai rhanbarthau Cymdeithas yr Iaith lunio siarterau sirol a fydd yn amlinelliad bras o gynnwys strategaethau o'r fath
- y dylai'r rhanbarthau drafod sut y gellid ymgyrchu er mwyn dwyn siarter o'r fath i sylw'r awdurdodau

Cynigydd – Senedd Cymdeithas yr Iaith

12. CYNGRHEIRIO

Cred y Cyffredinol Cyffredinol:
- y dylai Cymdeithas yr Iaith ymwrthod a'r demtasiwn i gefnogi pob ymgyrch sy'n digwydd bod yn ffasiynnol gyda'r Chwith Trendi

Galwa'r Cyfarfod Cyffredinol:
- ar y Senedd i wneud asesiad manwl o'r budd posib i'r iaith Gymraeg, cyn ymgyrchu mewn gwahanol feysydd, neu roi enw Cymdeithas yr Iaith i weithgarwch nad sydd yn uniongyrchol gysylltiedig â dyfodol yr iaith Gymraeg.

Cynigydd – Cell Dwyrain Clwyd

GWELLIANNAU
- Rhaid i unrhyw welliant i'r cynigion gael ei gyflwyno i swyddfa Cymdeithas yr Iaith erbyn canol dydd ar ddydd Gwener, Mawrth 5

CYNIGION BRYS
- Rhaid i gynygion brys gael eu cyflwyno i'r cadeirydd cyn 11am ar ddiwrnod y Cyfarfod Cyffredinol (Mawrth 6)
- Gellir ond cyflwyno cynigion brys ar faterion a fydd wedi codi rhwng y dyddiad cau ar gyfer y cynigion (Ionawr 23) a diwrnod y Cyfarfod Cyffredinol (Mawrth 6)

PRIF SWYDDFA
PEN ROC · RHODFA'R MÔR · ABERYSTWYTH
CEREDIGION · SY23 2AZ
FFÔN 01970 624501
FFACS 01970 627122
E-BOST SWYDDFA@CYMDEITHAS.COM
Y WE WWW.CYMDEITHAS.COM

YMAELODWCH

Ffurflen Ymaelodi

Enw

_____

Cyfeiriad

_____

_____

_____

Côd post

_____

Rhif ffôn

_____

Cyfeiriad e-bost

_____

Dyddiad geni

_____

Mae gen i ddiddordeb yn:

- ❑ Yr ymgyrch dros statws i'r Gymraeg
- ❑ Yr ymgyrch dros Gymunedau Rhydd
- ❑ Yr ymgyrch addysg

❑ Rwy wedi bod yn aelod o'r blaen

❑ Myfyriwr Ysgol, Coleg 6ed **£2**
Beth yw enw eich ysgol?

_____

❑ Myfyriwr Coleg **£4**
Beth yw eich cyfeiriad yn ystod y tymor?

_____

_____

_____

❑ Gwaith Llawn Amser **£10**
Ym mha faes ydych chi'n gweithio?

_____

❑ Di-gyflog **£4**

❑ Pensiynwr **£4**

❑ Aelodaeth teulu (plant dan 16) **£20**
Nifer o oedolion ____ Nifer o blant ____

❑ Hoffwn gyfrannu yn unig

❑ Nid wyf am dderbyn gobebiaeth

Manylion Banc

At sylw'r Rheolwr:
Enw'r banc

_____

Cyfeiriad y banc

_____

_____

_____

Enw'r cyfrif

_____

Rhif y cyfrif

_____

Yr wyf yn eich awdurdodi i dalu i gyfrif **Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, Rhif 81072102,** Banc HSBC, 24 Sgwâr y Castell, Caernarfon, **40-16-02**

Ar y cyntaf o fis _____,

blwyddyn _____, ac wedi hynny

bob mis y swm o £ _____.

Arwyddwyd

_____

Dyddiad

_____

/ EM@J@D
H DM I
A@I C+

Sut hoffech chi gefnogi un o brif fandiau Cymru yn yr Eisteddfod nesaf?

P

BRWYDR Y **BANDIAU** *2004*

"Cefnogi Gruff Rhys Super Furries yn ein gig cynta' ni – brilliant man!"
MATTOIDZ – ENILLWYR BRWYDR Y BANDIAU 2002

Q

/ NKNGBM BE O I P*
. - 6 0 4 < , / > 5 0 1 4 ; 3 - : / 7 5 ! ") (! ' # % & ! "
8 1 6 9 7 / 9 3 7 0 2 - P 0 5 S 9 - . 1 9 > : ; = > ; 3 : > # $ # - ?